**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

**Cofnodion cryno: CC(3)-18-10 :**

**Dydd Mercher 8 Rhagfyr 2010**

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV:www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_700000_08_12_2010&t=0

**Amser: 09.00 – 11.17**
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
**Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cadeirydd)**
**Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru**
**Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth**
**Eleanor Burnham, Gogledd Cymru**
**Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru**
**Ann Jones, Dyffryn Clwyd**
**Mark Isherwood, Gogledd Cymru**
**Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru**
**Lynne Neagle, Tor-faen**
**Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**Tystion**
Keith Edwards, Cyfarwyddwr, Sefydliad Tai Siartredig Cymru (Eitem 4)
Vikki Hiscocks, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Sefydliad Tai Siartredig Cymru (Eitem 4)
Barry Markham, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid (Eitem 4)
Lee Cecil, Cynrychiolydd Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid (Eitem 4)
David Cox, Swyddog Polisi, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid (Eitem 4)
Wil Williams, Agorfa Cefni (Eitem 4)
Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a'r Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Eitem 4)
Sue Finch, Swyddog Polisi Tai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Eitem 4)
Kenyon Williams, Pennaeth Tai Sector Preifat, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Eitem 4)
Sarah McGill, Cadeirydd Panel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan (Eitem 4)
Lyndon Puddy, Rheolwr Gwasanaethau Opsiynau Tai, Tor-faen (Eitem 4)

**Staff y Pwyllgor**

Tom Jackson, Clerc

Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

**1: Ethol Cadeirydd dros dro (09.00 – 09.03)**

1.1 Gofynnodd Clerc y Pwyllgor am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd dros dros, yn unol â Rheol Sefydlog 10.19.

1.2 Enwebwyd Joyce Watson gan Dai Lloyd. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Etholwyd Joyce Watson yn Gadeirydd dros dro.

**2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.03 – 09.03)**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies a Sandy Mewies. Roedd Ann Jones yn dirprwyo ar ran Alun Davies ac roedd Lorraine Barrett yn dirprwyo ar ran Sandy Mewies.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 3**

2.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

**3: Blaenraglen Waith y Pwyllgor (09.03 – 09.14)**

**3.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.**

**4: Ymchwiliad i'r sector rhentu preifat – casglu tystiolaeth (09.14 – 10.57)**

**4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, Agorfa**

**Cefni, CLlLC, Panel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan a'r Rhwydwaith Digartrefedd fel rhan o'i ymchwiliad i'r sector rhentu preifat.**

**Camau i'w cymryd**

Gofynnwyd i'r Clerc gylchredeg linc i bapur briffio polisi Sefydliad Tai Siartredig Cymru ar eiddo gwag i'r Aelodau.

Gofynnwyd i Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid ddarparu nodyn am nifer y landlordiaid sydd wedi bod yn destun camau yn eu herbyn.

Gofynnwyd i Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid ddarparu nodyn am sawl eiddo y mae aelodau'r Gymdeithas yn berchen arnynt, ac i gadarnhau pa ganran o eiddo sector rhentu preifat yng Nghymru mae hyn yn ei chynrychioli.

Gofynnwyd i'r Clerc anfon nifer o gwestiynau i Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid na chafodd yr Aelodau amser i'w gofyn.

Gofynnwyd i Banel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan i ddarparu nodyn am gyfran y tenantiaid yn y sector rhentu preifat sy'n derbyn budd-dal tai.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 5**

2.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

**5: Ymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru – ystyried yr adroddiad drafft (10.57 – 11.14)**

5.1 Gofynnwyd i'r Clerc gywiro'r adroddiad drafft yn dilyn sylwadau gan yr Aelodau.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i drafod yr adroddiad drafft unwaith eto yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr.

**6: Papurau a nodwyd:**
CC(3)-18-10 (p5) – Blaenraglen waith y Pwyllgor

CC(3)-18-10 (p6) – Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid – effaith y newidiadau arfaethedig i fudd-dal tai

CC(3)-18-10 (p7) – Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog dros Dreftadaeth yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd

CC(3)-18-10 (p8) – Gwybodaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn perthynas â'r sesiwn i graffu ar y gyllideb ddrafft ar 24 Tachwedd

CC(3)-18-10 (p9) – Gohebiaeth gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

CC(3)-18-10 (p10) – Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref

CC(3)-18-10 (p11) – Gohebiaeth gan y Gweinidog dros Dreftadaeth yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd

CC(3)-17-10 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 24 Tachwedd 2010

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Rhagfyr 2010**